

Cynlluniau datblygu ysgolion – cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (os yn berthnasol): **UCAC (Undeb
Cenedlaethol Athrawon Cymru)**

PEIDIWCH CYFIEITHU'R ENW HWN

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY24 5EY

Dylid dychwelyd erbyn **21 Gorffennaf 2014** i:

Ymgynghoriad y Cynlluniau Datblygu Ysgolion
Is-adran Safonau a Datblygiad Proffesiynol Ymarferwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: PracticeReviewandDevelopment@cymru.gsi.gov.uk

(Dylid nodi 'Ymgynghoriad CDY' ym mlwch pwnc y neges e-bost.)

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i wneud y prosesau cynllunio strategol a phennu targedau yn fwy effeithlon fel bod y CDY yn cynnwys yr holl ddogfennau cynllunio strategol eraill? (Gweler adran 4.)

Cytuno	✓	Anghytuno	Dim yn cytuno nae yn anghytuno
---------------	---	-----------	---

Sylwadau

Rydym yn croesawu'r datganiad yn y ddogfen ymgynghorol mai dim ond un cynllun gwella sydd ei angen ar ysgol, ac mai hon fydd y sail ar gyfer unrhyw ymyriadau allanol. Cefnogwn y cynnig y dylai'r CDY gwmpasu

unrhyw ddogfennau cynllunio strategol eraill. Rydym yn gytûn y dylai hynny wneud prosesau cynllunio strategol yn fwy effeithiol, ac y dylai leihau ar fiwrocratiaeth ddiangen.

Bydd angen sicrhau bod staff Awdurdodau Lleol a Chonsortia Rhanbarthol yn ymwybodol o'r drefn newydd, a'u bod oll yn gweithio o'r un ddogfen. Profiad ein haelodau yw bod angen iddynt gwblhau gwaith papur beichus ac ychwanegol i'r cyrff hyn, er enghraifft, manylu'n llafurus ar wariant o symiau penodol (a bach weithiau) o arian grant, neu gyflwyno'r wybodaeth yn y CDY mewn fformat penodol.

Croesawn yn ogystal y bwriad i gyflwyno cyfarwyddyd a fydd yn gymorth i dimau arweinyddol a chyrff llywodraethol fel ei gilydd i baratoi'r Cynllun. Er y cytunwn mai canllaw yn unig ddylai hwn fod ac nid yn gyfarwyddyd haearnaidd (er mwyn caniatáu hyblygrwydd i gyd-fynd ag amgylchiadau penodol), awgrymwn y gallai fod yn ddefnyddiol cyhoeddi rhyw fath o dempled neu *bro forma* dewisol; byddai'n hynny'n arbennig o ddefnyddiol i'r ysgolion hynny nad ydynt wedi bod yn cwrdd yn llawn â'r disgwyliadau hyd yma.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r rhestr o gynnwys gofynnol arfaethedig? (Gweler adran 5.)

Cytuno	✓	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	
---------------	---	-----------	--	--

Sylwadau

Dyma'r math o wybodaeth sy'n cael ei gynnwys mewn CDY o safon uchel yn barod.

Unwaith eto, byddai'n werth nodi mai hyn yn unig sydd ei angen. Mae CDY rhai ysgolion yn ddogfennau llawer rhy swmpus i fod yn weithredol – ac ni ddylai ysgolion ddod dan bwysau gan Awdurdodau Lleol na Chonsortia Rhanbarthol i greu dogfennau anhylaw.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno y dylai'r CDY ddatgan, fel isafswm, gynllun manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol a chynllun bras ar gyfer y ddwy flynedd academaidd ganlynol? (Gweler adran 5.)

Cytuno	✓	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	
---------------	---	-----------	--	--

Sylwadau

Eto, dyma'r arfer cyffredin yn barod, a chytunwn yn llwyr â'r cynnig. Mae'r gair 'isafswm' yn cyfleu y gellid cynnwys mwy ac mae gan yr

Undeb bryderon y bydd disgwyliadau ehangach yn cael eu gosod ar ysgolion o'r herwydd. Mae angen nodi'n glir beth sydd ei angen mewn CDY ac mai hynny 'yn unig' sydd ei angen.

Cwestiwn 4 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Sylwadau

Er bod hi'n arferol i ysgolion ymgynghori gyda disgyblion, rhieni, a rhanddeiliaid eraill, nid yw ymgynghori ar flaenoriaethau'r CDY yn flynyddol bob amser yn ystyrlon gan y bydd y prif elfennau fel arfer yn deillio o hunanarfarnu'r ysgol a/neu flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'n bosib y bydd ymgynghori eisoes wedi digwydd yn rhan o'r broses hunanarfarnu.

Digon fyddai gwneud rhieni yn ymwybodol o'r Cynllun a'i flaenoriaethau, ac amlygu sut y gallent gefnogi'r ysgol i'w cyflawni.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:
